



Datganiad i'r Wasg: 1.3.2023

DEUCE: DRAMA BODLEDIAD DDWYIEITHOG NEWYDD GAN DDYFEISWYR TREMOLLO, A GYRHAEDDODD RHESTR FER GWOBRAU DRAMA SAIN Y BBC

Wedi'i chynhyrchu gan **Theatr Illumine** ar y cyd â **Phartneriaeth Genomeg Cymru** a **Pharc Geneteg Cymru**, mae *Deuce* yn ddrama bodlediad a ysgrifennwyd gan y dramodydd o Gaerdydd, **Lisa Parry** a'i chyfarwyddo gan **Zoë Waterman**, sy'n archwilio cardiomyopathi hypertroffig (HCM). Wedi ei chyfieithu gan **Branwen Davies**, bydd fersiwn Cymraeg a Saesneg ar gael i'w ffrydio am ddim, er mwyn sicrhau y gall ystod eang o wrandawyr gael profiad o'r cynhyrchiad pwerus hwn sy'n procio'r meddwl.

"Yn dilyn llwyddiant TREMOLO, mae Parc Geneteg Cymru yn falch iawn o fod yn gweithio gyda Theatr Illumine unwaith eto i gefnogi eu cydweithrediad newydd, Deuce, gyda Partneriaeth Genomeg Cymru. Mae'r project cyffrous hwn yn dod â'r celfyddydau a gwyddoniaeth ynghyd fel ffordd o ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch geneteg a genomeg a'r rôl bwysig sydd ganddynt ym maes meddygaeth, iechyd ac, yn y pen draw, ym mywydau pobl." **Dr Rhian Morgan, Parc Geneteg Cymru**

Mae'r podlediad hanner awr o hyd yn adrodd hanes Alys, chwaraewr tenis yn ei harddegau sy'n llewygu yn ystod rownd derfynol Pencampwriaeth Iau y Merched yn Wimbledon. Wrth i swyddogion cymorth cyntaf sylweddoli ei bod hi'n profi ataliad ar y galon, mae hi'n cael ei rhuthro i'r ysbyty, lle mae hi'n gorwedd mewn coma. Yma, caiff ymweliad gan ei diweddar dad, Daf, sy'n gyn-chwaraewr tenis proffesiynol y mae Alys yn gobeithio ei efelychu.

Mae'r byd fel y mae Alys yn ei adnabod yn cael ei droi wyneb i waered pan fydd meddygon yn rhoi diagnosis iddi o cardiomyopathi hypertroffig (HCM); cyflwr lle mae wal cyhyrau'r galon yn dod yn fwy trwchus ac mae pwmpio gwaed o gwmpas y corff yn dasg anoddach. Gydag athletwyr proffesiynol enwog fel y pêl-droediwr Fabrice Muamba a'r chwaraewyr pêl-fasged Hank Gathers a Will Kimble yn adnabyddus am gael diagnosis, mae'r cyflwr wedi ymddangos yn aml mewn penawdau yn y byd go iawn oherwydd ei effaith bosibl. Nid yn unig y mae Alys yn deall y gallai ei diagnosis olygu diwedd ei gyrfa ei hun, mae hi hefyd sylweddoli y gallai'r cyflwr hwn a etifeddodd, a achoswyd gan nam yn ei genom, fod wedi achosi marwolaeth anesboniadwy ei thad.

Mae sgript Lisa, sy'n cael ei lywio gan brofiad arbenigwyr mewn geneteg a genomeg, cardiolegwyr a'r rhai sy'n byw gyda cardiomyopathi hypertroffig, yn archwilio effaith y diagnosis, sy'n newid bywyd, ar berthnasau, uchelgeisiau ac iechyd meddwl. Wrth i Alys bwyso ar ei thad am gefnogaeth wrth ddod i delerau â'r syniad o ddychwelyd at ei chorff ac i fywyd heb denis proffesiynol, mae hi'n dechrau deall bod yn rhaid iddi symud y tu hwnt i'r galar mae hi'n ei deimlo yn y pen draw, wrth lywio realiti newydd heriol.

Dywedodd Lisa Parry *"Roedd ymchwilio i'r ddrama hon yn brofiad hynod deimladwy wrth i bobl rannu eu straeon. Mae'n teimlo'n iawn i adrodd y stori hon ar ffurf sain, sy'n ffordd bersonol iawn o adrodd straeon lle mae'r gwrandawr yn creu'r delweddau yn ei feddwl ei hun. Rydw i wrth fy modd y*

bydd pobl yn gallu gwrandio arni ar eu ffonau, o ble bynnag, a galla i ddim aros i ddechrau yn yr ystafell ymarfer."

"Mae Partneriaeth Genomeg Cymru yn falch iawn o ariannu prosiect mor arloesol gyda Theatr Illumine. Ein nod cyffredinol yw manteisio ar y cyfleoedd y mae genomeg yn eu darparu i wella gofal iechyd a lles i'n cleifion yng Nghymru. Yn dilyn llwyddiant TREMOLO, rydym yn gwybod bod y dull creadigol hwn yn helpu'r boblogaeth ehangach i ddeall perthnasedd a phwysigrwydd genomeg i unigolion a theuluoedd. Bydd hyn yn allweddol wrth i dechnoleg wella, ac wrth i ni ddeall a chymhwyso genomeg yn fwy." **Michaela John, Pennaeth Rhaglenni GPW**

Bydd actores Light In The Hall, **Ella Peel**, yn chwarae rhan Alys. Mae Ella wedi ymddangos mewn ystod o gynyrchiadau ar y sgrin ac ar y llwyfan ac mae ei rhestr gydnabyddiaeth yn cynnwys gwaith gyda Theatr Genedlaethol Cymru, HBO, BBC Cymru, Boom Cymru a BBC Radio Cymru.

Meddai Ella *"Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio ar y prosiect hwn. I ddechrau mae'r sgript yn gyfareddol, ac mae pob darlleniad yn cynnig haen ychwanegol o ystyr ac yn taflu goleuni ar thema arall yr wyf yn edrych ymlaen yn fawr at ei harchwilio yn yr ymarferion. Gwnaed i mi deimlo mor gartrefol a chyfforddus yn y clyweliad, fe adawais i wir eisiau gweithio gyda'r bobl creadigol anhygoel yma ac rwy'n teimlo'n lwcus iawn fy mod wedi cael y rôl."*

Yr Actor a'r Cyfarwyddwr Theatr **Daniel Lloyd** fydd yn chwarae rhan Daf. Mae gwaith Daniel yn cynnwys nifer o gynyrchiadau ar gyfer **Theatr Clwyd** ac mae hefyd yn rhan o Wet Look **4 Stories** sydd ar y gweill ar gyfer Blacklight/Channel 4. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos yng nghyfres 4 o **Brassic** SKY ONE ac yn chwarae rhan Mered yn ffilm newydd Roger William, **Y Sŵn** ar gyfer S4C, wedi'i chyfarwyddo gan Lee Haven Jones.

Meddai Daniel *"Dwi wrth fy modd yn cael chwarae rhan Daf yn Deuce. I mi, mae'n ddrama hynod ddiddorol am gost boenus gosod uchelgais a llwyddiant uwchlaw popeth mewn bywyd - hyd yn oed ar draul ein hiechyd. Rhywbeth y gall cymaint ohonom uniaethu ag ef. Mae'n drafodaeth o'r galon rhwng tad a merch; y ddau yn cael eu gorfodi i wynebu eu marwoldeb eu hunain, eu dewisiadau a'u blaenoriaethau, eu perthynas, eu nodweddion cyffredin - da a drwg, a'u gofidiau. Beth fydden ni'n ei ddweud wrth y rhai rydyn ni wedi eu caru a'u colli? Mae'n her fawr i fynd i'r afael â rôl fel hyn ac rydw i mor falch ei fod ar gael i gynulleidfaoedd ei fwynhau yn Gymraeg ac yn Saesneg."*

Gareth John Bale, sy'n fwyaf adnabyddus am ei brif ran yn sioe llwyfan **Grav**, gyda fersiwn sgrin ar gyfer S4C wedi'i chreu ohoni yn ddiweddar a enillodd wobr BAFTA, a **Mali Ann Rees** sydd wedi ymddangos yn ddiweddar yng nghyfres 2 o **The Pact** ar gyfer BBC One, fydd yn chwarae rhan y sylwebwyr.

Bydd Mari Beard, actor ac awdur sydd wedi ennill BAFTA, yn chwarae rhan mam Alys, **Bethan**. Mae Mari wedi ymddangos mewn nifer o sioeau teledu a llwyfan, rhaglenni radio a phodlediadau.

Caiff **Deuce** ei recordio yn Hoot Studios a'i olygu gan **Rhys Young**. Bydd y podlediad yn cael ei ryddhau ym mis Mai eleni a bydd ar gael i wrando arno a'i lawrlwytho drwy sawl platfform gan gynnwys **Apple**, **Spotify** ac **Anchor** yn ogystal â GPW, WGP a **gwefan** Theatr Illumine.

Nodiadau Golygyddol:

Cast:

Alys: Ella Peel

Daf: Daniel Lloyd

Bethan / Gwestai: Mari Beard

Sylwebydd Un: Gareth John Bale

Sylwebydd Dau: Mali Ann Rees

Awdur: Lisa Parry

Cyfarwyddwr: Zoë Waterman

Dylunio a golygu sain: Rhys Young

Cyfieithydd: Branwen Davies

Bywgraffiadau:

Ella Peel

Mae Ella yn wreiddiol o Gaerfyrddin ac yn ddwyieithog, yn siarad Cymraeg a Saesneg. Mae hi wedi ymddangos mewn ystod o gynyrchiadau ar y sgrin ac ar y llwyfan ac mae ei rhestr gydnabyddiaeth yn cynnwys gwaith gyda Theatr Genedlaethol Cymru, HBO, BBC Cymru a Boom Cymru. Yn fwy diweddar, bu Ella yn serennu mewn cynhyrchiad radio i BBC Radio Cymru ac mae hi ar hyn o bryd yn chwarae rhan yn nrama gaeaf Channel 4, **The Light In The Hall** ochr yn ochr ag Iwan Rheon.

Daniel Lloyd

Mae Daniel yn wreiddiol o Rosllannerchrugog ac fe'i hyfforddwyd yn East 15 Acting School, Llundain. Fel actor a chyfarwyddwr, mae cydnabyddiaethau Daniel yn cynnwys **Robin Hood**, **Dick Whittington** a **The Taming of the Shrew** gyda Theatr Clwyd, **Honey** ar SKY a **Muppets Most Wanted** ar Disney. Yn fwy diweddar, bu'n ffilmio Wet Look **4 Stories** ar gyfer Blacklight/Channel 4 ac ar hyn o bryd mae'n ymddangos yng nghyfres 4 o **Brassic** ar SKY ONE. Mae hefyd yn chwarae rhan Mered yn ffilm Roger Williams **Y Sŵn**, a fydd ar S4C yn fuan, wedi ei chyfarwyddo gan Lee Haven Jones.

Mari Beard

Mae Mari yn actor, yn awdur BAFTA ac yn gyfarwyddwr sy'n wreiddiol o Aberystwyth. Mae ei chydabyddiaethau yn cynnwys gwaith teledu gyda BBC Wales, Boom Cymru ac Alpha Productions a chynyrchiadau llwyfan gyda Theatr y Sherman a'r Eisteddfod Genedlaethol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi ymddangos mewn nifer o raglenni radio a phodlediadau gan gynnwys **Tourist Trap: Stay at home special** ac **Eye on Wales** ar gyfer Radio Wales. Yn hwyrach

eleni, bydd hi'n actio yn y ffilm **Gwenhwyfar!** ac ymddangos ar sioe banel newydd BBC Radio Cymru **Uffern iaith y nefoedd**.

Bu Mari yn cyd-greu, ysgrifennu ac yn serennu yn y gomedi dywyll/drama **Merched Parchus**, gan dderbyn enwebiad BAFTA Cymru am yr Awdur Gorau, ac yn ddiweddar bu'n cyfarwyddo am y tro cyntaf ar y ffilm gomedi **Sit Bangor**.

Gareth John Bale

Mae cydnabyddiaethau teledu Gareth, sy'n siaradwr Cymraeg, yn cynnwys y brif ran yn ffilm S4C **Grav**, **The Indian Doctor**, **Requiem** a **Casualty** ar gyfer y BBC. Ar y llwyfan, mae wedi teithio'n rhyngwladol gyda'r sioe un dyn, **Grav**, a gafodd ganmoliaeth uchel, ac mae'n aelod rheolaidd o'r cwmni teithiol Black Rat Theatre Company. Mae Gareth hefyd yn artist llais medrus iawn ac wedi lleisio ystod eang o ymgyrchoedd masnachol, rhaglenni dogfen a chanllawiau sain yn y maes treftadaeth.

Mali Ann Rees

Ar ôl hyfforddi yn East Acting 15 School yn Llundain, mae Mali wedi serennu mewn cynyrchiadau ffilm, teledu a theatr ac wedi ymddangos yn Theatr y Sherman, Theatr Clwyd ac mewn sioeau ar gyfer S4C a BBC. Bu Mali yn chwarae rhan Megan yn ddiweddar yng nghyfres 2 o **The Pact** ar gyfer BBC One.

Lisa Parry

Mae Lisa Parry yn ddramodydd sy'n byw yng Nghaerdydd. Mae ei gwaith yn cynnwys: Tremolo (Illumine, Theatr Genedlaethol Cymru, WGP), The Order of the Object (Theatr Clwyd); The Merthyr Stigmatist (Sherman/Theatre Uncut, sydd ar y rhestr fer ar gyfer 'Political Playwriting Award' gyntaf Theatre Uncut ac a gyhoeddwyd gan Nick Hern Books); Lump (Dirty Protest/Paines Plough); Alex (The Miniaturists, Arcola); a 2023 (Chapter, gyda detholiadau wedi'u perfformio'n ddiweddarach yn y Barbican, Llundain). Mae ei gwaith ysgrifennu ar gyfer y sgrin yn cynnwys Inside the Piano Shop (Hyperobject Studio, Llundain), ac mae ei gwaith sain yn cynnwys Chocolate Orange Biscuits (Wireless Theatre Company).

Lisa yw Cyd-gyfarwyddwr Theatr Illumine ac mae hi'n awdur preswyl yn Theatr Clwyd. Bu'n siarad yn helaeth ar baneli amrywiol ynglŷn â ffeministaeth a theatr yn ogystal â gwyddoniaeth a theatr, gan roi sgwrs nodedig ar gyfer TEDx yng Nghaerdydd. Cyn hynny bu'n gweithio fel newyddiadurwr newyddion ar deitlau rhanbarthol a chenedlaethol yn y DU.

Zoë Waterman

Zoë yw cyd-gyfarwyddwr Theatr Illumine a hi oedd Cyfarwyddwr Cyswllt New Vic Theatre yn 2018/19. Hi oedd enillydd gwobr 'Emerging Directors Award' New Wimbledon Theatre yn 2007. Derbyniodd MFA mewn Cyfarwyddo Theatr o Birkbeck College.

Mae ei gwaith yn y theatr yn cynnwys: 2023 (Theatr Illumine); Table, Playhouse Creatures a The Kitchen Sink (The New Vic, Stoke-on-Trent); The Rubenstein Kiss, Amy's View ac After Miss Julie (Nottingham Playhouse); Jack and the Beanstalk, Dick Whittington a Sleeping Beauty (Theatr Clwyd); The Rise and Fall of Little Voice, Remarkable Invisible, The Vertical Hour, Enlightenment a Shining City (Theatre by the Lake, Keswick); The Bogus Woman (Theatre by the Lake, Keswick a

thaith y DU); Swan Song: An Evening of Music and Song (The Swan, RSC); Cinderella, Aladdin, Sleeping Beauty a Jack and the Beanstalk (Loughborough Town Hall); The Demand (Shooting Fish Theatre Company); Aladdin (The Capitol, Horsham); The Promise (New Wimbledon Theatre Studio); A Kind of Alaska (Gŵyl Ymylol Caeredin).

Branwen Davies

Mae Branwen yn ddramodydd, yn wneuthurwr theatr ac yn ddramadegwr. Mae hi'n aelod o gwmi theatr Dirty Protest a chwmi theatr Os Nad Nawr. Cafodd Branwen ei phenodi gan yr Urdd yn ddiweddar i ail-lansio Theatr yr Ieuencid.

Rhys Young

Mae Rhys wedi gweithio yn y diwydiant fel peiriannydd recordio, recordydd ADR, dylunydd sain, artist *foley* a chymathwr. Mae Rhys hefyd yn gwneud gwaith Sain Ddisgrifiad ar gyfer rhiant gwmi CTV Sound Studios.

Mae wedi gweithio ar amrywiaeth o raglenni a ffilmiau ar gyfer amrywiaeth eang o gleientiaid. Mae hefyd yn brofiadol yn y maes cymysgu fideos masnachol a chorfforaethol ar gyfer cleientiaid sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Sofa Sofa, HMRC, y GIG a Trafnidiaeth Cymru. Mae hefyd wedi gweithio ar sawl ffilm a drama deledu proffil uchel fel recordydd ADR.

Mae Rhys yn siaradwr Cymraeg rhugl.

Theatr Illumine

Mae Theatr Illumine yn gydweithrediad rhwng y dramodydd o Gaerdydd, Lisa Parry, a'r cyfarwyddwr arobryn Zoë Waterman. Mae Illumine yn creu theatr gydag ysgrifennu newydd wrth ei wraidd, theatr sy'n datgelu straeon cudd sy'n gwbl amlwg – straeon o'n cwmpas rydyn ni'n rhy brysur i sylwi arnynt. Nod Illumine yw annog trafodaeth, creu theatr i bawb ac estyn allan at gynulleidfaedd sy'n cael eu hanwybyddu.

Ffurfiwyd Illumine yn 2016 ar ôl dros ddegawd o gydweithio ysbeidiol rhwng Lisa a Zoë ar wahanol brosiectau, yn arbennig yn Theatre503, Arcola ac Arch468. Ei gynhyrchiad cyntaf oedd 2023 yn Chapter, a gafodd ei ddisgrifio gan feirniaid fel 'cyfareddol', a perfformiwyd adrannau ohono yn ddiweddarach yn y Barbican, Llundain ar ôl i'r cwmni gael ei wahodd i gymryd rhan yn Fertility Fest. Rhif cwmni cofrestredig Illumine yw 12469151.

@illumine theatre

www.illumine theatre.org

Partneriaeth Genomeg Cymru

Mae Partneriaeth Genomeg Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y GIG, y byd academiaidd a grwpiau cleifion/cyhoeddus, er mwyn harneisio datblygiadau o ran deall a chymhwyso genomeg i drawsnewid strategaeth iechyd y cyhoedd a'r dull o ddarparu gofal.

Gyda'n gilydd, byddwn yn datblygu sgiliau ein gweithlu presennol fel y gall cenedlaeth fodern o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddod i'r amlwg gyda'r galluedd i fanteisio ar y cyfle i bobl Cymru. Mae dull cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ein galluogi i greu a manteisio ar gyfleoedd ar draws gofal iechyd i gyflawni ein huchelgeisiau i wella iechyd, lles a ffyniant.

Yn ganolog i hyn oll mae ein Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd, y mae ei ymroddiad a'i gefnogaeth barhaus wrth lywio'r ffordd y mae genomeg yn cael ei darparu nawr ac yn y dyfodol, yn amhrisiadwy i hyrwyddo gwaith Partneriaeth Genomeg Cymru.

@GenomicsWales @GenomegCymru

<https://genomicspartnership.wales>

Parc Geneteg Cymru

Wedi'i sefydlu yn 2002 a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae Parc Geneteg Cymru yn cefnogi, yn hyrwyddo, ac yn ymgymryd ag ymchwil geneteg a genomeg feddygol, ac yn gweithio i sicrhau ei fod yn cael ei gyfleu er lles cleifion a'r cyhoedd yng Nghymru a thu hwnt.

Mae WGP yn ymgysylltu â chleifion, y cyhoedd, ysgolion a gweithwyr proffesiynol i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eneteg a genomeg. Mae'n hwyluso cyfranogiad eang a chymryd rhan mewn ymchwil ac wrth ddatblygu gwasanaethau a pholisi.

Tremolo

Drama bodlediad yw **Tremolo**, wedi'i chynhyrchu gan Theatr Illumine mewn partneriaeth â Pharc Geneteg Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru, gyda chefnogaeth y Gymdeithas Geneteg. Mae'n adrodd hanes Harri - llanc 18 oed sydd â'i holl fywyd o'i flaen, dim ond i ddarganfod bod ei fam wedi cael diagnosis o Alzheimer etifeddol sy'n dechrau'n gynnar a bod ganddo ef a'i chwaer Gwenllian hanner cant y cant o siawns o etifeddu'r clefyd. A ddylai gymryd prawf i ddarganfod?

Wedi'i anelu'n bennaf at gynulleidfaoedd 16+ oed, ond ar gael i bawb, gellir gwrandao ar **Tremolo** a'i lawrlwytho drwy blatfformau gan gynnwys **Spotify**, **iTunes** ac **AM**. Mae'r ddrama ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Ers hynny mae **Tremolo** wedi cyrraedd rhestr fer [Gwobrau Drama Sain y BBC 2023](#), gyda Gareth Elis yn rownd derfynol Gwobr Marc Beeby am y Perfformiad Cyntaf Gorau.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y podlediad, cysylltwch â Rebecca Johnson, Rebecca.Johnson4@wales.nhs.uk neu Lisa Parry lisa.illuminetheatre@gmail.com